**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 2 Mai 2019 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

YN BRESENNOL
Richard Fairhead, Cymdeithas Arweinwyr Tân - Prospect, yn cynrychioli'r Gweithwyr (Cadeirydd)
Blythe Roberts, Undeb yr FBU, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Y Cyng. Bryan Apsley, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Gareth Owens, Dirprwy Swyddog Monitro, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Helen MacArthur, PSC, yn Cynghori
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau, yn Cynghori

YMDDIHEURIADAU
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau, yn Cofnodi
Duncan Stewart-Ball, Undeb yr FBU, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Geraint Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Ruth Simmons, PSTC, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Ken Finch, Trysorydd, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Y Cyng. J Rodney Skelland, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Y Cyng. John Brynmor Hughes, yn cynrychioli'r Gweithwyr

SYLWEDYDD
Matthew Georgiou, Uwch Gyfreithiwr, Sir y Fflint

1 ETHOL CADEIRYDD (CYNRYCHIOLI'R GWEITHWYR)

1.1 Oherwydd y lefel presenoldeb, gohiriwyd eitem 2 ar yr agenda tan gyfarfod mis Gorffennaf.

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2019 eu cymeradwyo'n gofnod cywir. O'r pwyntiau gweithredu, mae pedwar cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol (BPLl) wedi cael eu trefnu ar gyfer 2019/20, a bydd y gweinyddwyr, sef Cronfa Bensiwn Dyfed (CBD) yn mynychu cyfarfod mis Hydref 2019.

4 ADOLYGU A CHYMERADWYO'R CYLCH GORCHWYL

Fel rhan o ofynion blynyddol y BPLl a argymhellir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau (tPR), cafodd y Cylch Gorchwyl ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r wybodaeth a'r sgiliau a ddisgwylir, a'r gofyniad newydd i gwblhau modiwlau hyfforddi tPR o fewn 6 mis o ymuno â'r Bwrdd. Bydd cynllun hyfforddi'n cael ei ychwanegu at yr hyfforddiant hwn, sydd wedi'i drafod a'i gymeradwyo o dan eitem 10 ar yr agenda.

**3.2 PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad;**

**(i) cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig;**
**(ii) cytuno â'r gofynion hyfforddi.**

4 ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

4.1 Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am aelodaeth y cynllun, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf ar y canlynol:

- Grŵp Pensiynau Diffoddwyr Tân Cymru Gyfan
- Her Gyfreithiol Diogelwch Trosiannol Pensiynau
- Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) – Prisiad a Chap Cost Pensiynau Diffoddwyr Tân
- Dyfarniad yr Uchel Lys ar Gyflog Pensiynadwy Diffoddwyr Tân
- Y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP) – y cwynion a dderbyniwyd
- Buddiannau Pensiwn Ychwanegol
- Gorchymyn Diwygio 2019 – Barn Walker
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am fwletinau a chylchlythyrau FFPS.

4.2 Argymhellwyd a nodwyd y byddai adroddiadau ar weithgarwch yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno mewn fformat gwahanol, gan gysoni'r hen ffigurau a ddarparwyd gan CBD a'r ffigurau newydd. Codwyd y mater ynghylch y broses optio allan, gydag Aelodau'r Bwrdd yn gofyn i ffeiliau staff gael eu gwirio, i gadarnhau bod staff amser llawn sydd ddim yn rhan o'r FFPS wedi llenwi ffurflenni dewis optio allan ar gofnod. PSTC Fairhead sydd yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'r mater hwn.

4.3 Trafodwyd llys apêl Sargeant v Awdurdod Cynllunio Tân ac Argyfwng Llundain (ac eraill). Dyfarnodd y Llys Apêl fod y diogelwch trosiannol a gynigiwyd i rai aelodau fel rhan o weithredu cynlluniau cyfartaledd gyrfa yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Mae'r Llywodraeth yn awr yn ceisio cael caniatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn gan y Goruchaf Lys. Os dyfernir apêl, y system llysoedd fydd yn penderfynu ar yr amserlenni. Os na fydd apêl, yna bydd yr achos yn mynd i'r Tribiwnlys Cyflogaeth ei gywiro (amserlen o 12 mis).

4.4 Trafododd y Bwrdd y mater sy'n ymwneud â chydrannau cyflog pensiynadwy a chymhlethdod contractau gwaelodol. Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys ynghylch trin hyfforddiant a lwfansau criwiau dydd (achos MWWFRS), cytunodd y Bwrdd, hyd nes bydd y canllawiau sy'n cael eu rhoi at ei gilydd gan y CLlL ar hyn o bryd yn cael eu

cyhoeddi, y bydd y mater yn parhau ar agendâu BPLlau yn y dyfodol.

4.5 It was agreed that if the LGA is not able to provide guidance that brings this matter to a conclusion then a future action would be to consider a local resolution. This may include an employee and employer joint instruction of counsel It was agreed that this matter would be retained as an ongoing agenda item. Cytunwyd, os nad yw'r ALlL yn gallu darparu canllawiau sy'n dod â'r mater hwn i ben, y byddai'n rhaid cymryd camau yn y dyfodol i ystyried ateb lleol. This may include an employee and employer joint instruction of counsel Cytunwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei gadw fel eitem barhaus ar yr agenda.

4.6 Gofynnwyd hefyd, i aelodau nodi'r isod:

- Y dyddiadau ar gyfer digwyddiadau hyfforddi yn y dyfodol, a fydd yn cael eu cynnal gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) ym mis Mehefin;
- Aelodau i ystyried pa hyfforddiant y byddai arnynt ei angen wrth ethol am yr hyfforddiant blynyddol a ddarperir gan y CLlL i bob BPLl;
- Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp Cyfathrebu Tân yn creu ffurflenni a chanllawiau ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd. Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i orffen, bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd;
- Y bydd y safonau perfformiad o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol â CBD yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd, i sicrhau bod y cyfrifoldebau a'r sicrwydd llawn yn cael eu cyflawni;
- Mae ymholiad wedi'i godi gyda Grŵp Technegol y CLlL ynghylch y cyfrifiadau a ddefnyddir mewn achosion atal.

4.7 Cyfarfodydd yn y dyfodol i gynnwys eitem safonol ar yr agenda i nodi a chodi unrhyw faterion ffurfiol sydd angen eu hanfon ymlaen i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA).

**4.8 PENDERFYNWYD:**

**(iii) nodi'r adroddiad;**

**(iv) cynnwys eitem safonol ar yr agenda sy'n ymwneud â materion ffurfiol sydd angen cael eu hanfon ymlaen i'r ATA;**

**(v) gwirio ffeiliau staff i sicrhau bod ffurflenni optio allan yn cael eu cadw.**

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL 18-19

5.1 Cyflwynodd PSC MacArthur yr adroddiad. Fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Pensiwn Lleol, dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys:

- Crynodeb o waith y Bwrdd a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- Manylion o'r meysydd pryder a adroddwyd i'r Bwrdd neu a godwyd gan y Bwrdd, a'r argymhellion a wnaed;
- Manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau unigol Byrddau Pensiwn Lleol, a sut y rheolwyd y rhain;
- Unrhyw feysydd o risg neu bryder y mae'r Bwrdd eisiau eu codi gyda Rheolwr y Cynllun;
- Manylion yr hyfforddiant a dderbyniwyd a'r anghenion hyfforddiant a nodwyd.

5.2 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adran ar roi gwybod am achosion o Dor Cyfraith i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Trafodwyd y cwestiwn ynghylch cyflwyno rheol B5C yn hwyr fel toriad posibl. Ar sail y ffeithiau canlynol, barnwyd bod y mater yn amherthnasol:

- Mater hanesyddol sydd wedi rhagflaenu'r BPLl ac sydd wedi'i gywiro'n llawn;
- Effaith fach iawn-effeithiwyd yn ariannol ar ddau unigolyn;
- Sianeli niferus i sicrhau bod pob newid rheoleiddiol yn cael ei weithredu yn y dyfodol – presenoldeb mewn grwpiau pensiwn Rhanbarthol a Chymru Gyfan, Bwrdd Cynghori'r Cynllun a'r diweddariadau rheolaidd gan weinyddwyr CBD.

5.3 Trafodwyd blaenraglen waith 2019-20; awgrymwyd cynnwys yr ymgynghoriad sy'n trafod cap ymadael y llywodraeth ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus.

**5.4 PENDERFYNWYD:**

**(vi) nodi'r adroddiad;**

**(vii) cadarnhau bod Rheol B5c wedi'i gyflwyno'n hwyr fel nad oedd angen adroddiad ffurfiol ar y Rheoleiddiwr Pensiynau;**

**(viii) cynnwys y cap ymadael yn y flaenraglen waith a chyflwyno'r mater yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2019, lle gall aelodau ystyried y goblygiadau ac ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â hynny;**

6 CRONFA BENSIWN DYFED (CBD) – ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

6.1 Cyflwynodd Julie Brown yr adroddiad, ar ran CBD, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ynglŷn â gweinyddu'r cynlluniau. Darparodd yr adroddiad sicrwydd bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol, a thrafododd yr wybodaeth ddiweddaraf y pynciau canlynol:

- Diweddariad Rheoleiddio
- E-gyfathrebu
- Data Diwedd Blwyddyn
- Cysoni GMP
- Adroddiadau Ansawdd Data
- Fy Mhensiwn Ar-lein
- Llif gwaith

6.2 Trafodwyd y mater yn ymwneud â chofrestru a chael mynediad at y cyfleuster 'Fy Mhensiwn Ar-lein.' Cytunwyd bod yn rhaid cymryd camau i wella nifer yr aelodau sy'n talu pensiwn drwy ddefnyddio'r cyfleuster pensiwn. Bydd PSTC Fairhead yn bwrw ymlaen â'r mater drwy siarad ag Aelodau CFOA; bydd Blythe Roberts yn rhoi'r

wybodaeth ddiweddaraf i aelodau Undeb yr FBU, a bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon yn y Cylchlythyr wythnosol.

**6.3 PENDERFYNWYD:**

**(ix) nodi'r adroddiad;**

**(x) sicrhau bod CBD yn darparu cadarnhad ysgrifenedig yn nodi y y cydymffurfir â'r holl ofynion perthnasol o ran y bwletin a'r cylchlythyr;**

**(xi) cymryd camau i hyrwyddo'r defnydd o'r cyfleuster Fy Mhensiwn Ar-lein.**

7 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF

7.1 Cyfarfu Bwrdd Cynghori'r Cynllun (y Bwrdd) ar 3 Ebrill 2019, gan drafod amrywiaeth o faterion oedd yn cynnwys prisiad GAD 2016, y mater parhaus o benderfynu ar gyflog pensiynadwy, data aelodaeth a hefyd, achos cyfreithiol a allai gael goblygiadau i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Nid yw'r cofnodion ar gael i'w dosbarthu eto.

7.2 Rhoddodd PSC MacArthur wybod i aelodau bod £1.1 m o gyllid tuag at gynnydd yng nghostau pensiwn y cyflogwyr wedi'i gymeradwyo ar gyfer 2019/20, fodd bynnag, ni roddodd Llywodraeth Cymru unrhyw sicrwydd o ran cyllid ar gyfer y dyfodol.

**7.3 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 TRAFODAETH AR ANGHENION HYFFORDDI

8.1 Gofynnodd aelodau am hyfforddiant yn y meysydd canlynol:

- ymddeoliadau ar sail afiechyd;
- Deall cyflog pensiynadwy;
- Rolau a Chyfrifoldebau gweinyddwyr CBD;
- Unrhyw feysydd dan sylw ar ôl cwblhau modiwlau hyfforddi y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**8.2 PENDERFYNWYD:**

**(xii) cytuno â'r gofynion hyfforddi a lle bo'n berthnasol, trefnu darparwr hyfforddiant priodol**

9 UNRHYW FATER ARALL

9.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall